


# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 226

Pris £1

Mis Medi 2020



Mae Cwriw'r Coed a'r Gwenyn Coll i'w gyhoeddi gan Y Lolfa ym mis Hydref.



## ***Criw'r Coed a'r Gwenyn***

**D.W:** Mae'r llyfr sydd ar fin ei gyhoeddi wedi ei anelu at blant iau – pa lyfrau wyt ti wedi mwynhau darllen i dy blant dy hun?

Un peth rydyn ni wedi mynnu gwneud gyda'r tri o blant yw darllen stori cyn gwely. Wrth wneud hynny, wrth gwrs, rydw i wedi cael fy nghyflwyno i'r cannoedd o lyfrau plant gwyb sydd ar gael ar hyn o bryd. Rydw i wrth fy modd gyda chrefft awduron fel Julia Donaldson, Sue Hendra a Shirley Hughes a'i llyfr Alffi a Lili Mai.

**D.W:** Rwy'n cofio prynu fersiwn Gymraeg o lyfr Shirley Hughes i ti a dy chwaer pan oeddet ti'n fach! Roeddwn i'n gyffrous iawn gan fod cyn lleied o lyfrau Cymraeg ar gael ar y pryd.

**C.G:** Ie, wrth gwrs ac mae pethau yn dechrau newid erbyn hyn. Un o'r rhesymau mod i mor falch o **Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll** yw achos ei fod e'n llyfr gwreiddiol – nid cyfieithiad. Er fy mod i a fy mhlant yn mwynhau lot o lyfrau sy'n gyfieithiadau - rydw i'n gyffrous iawn wrth gyflwyno cymeriadau hollol newydd i'r darllenwyr!

**D.W:** Roeddwn i'n benderfynol o dy fodd i di mewn llyfrau o'r dechrau ac yn amlwg rwyd ti'n caru llyfrau o bob math ond o ble ddaeth yr awydd i ysgrifennu?

Rwy'n cofio bod yn ifanc a charu darllen cylchgronau – a meddwl byddwn i'n medru rhoi cynnig ar efelychu rhyw erthyglau bach tebyg – dyna fy atgof cyntaf. Yn 14 bues i'n ddigon ffodus i ennill cystadleuaeth Dydd Gŵyl Dewi y **Western Mail**. Hefyd, cafodd casgliad o waith plant yr ardal ei gyhoeddi i ddathlu Eisteddfod Islwyn yn 1998. Cefais waith wedi'i gyhoeddi yn hwnnw. Roedd rhain i gyd yn gamau bach ond yn rhai pwysig. Yn fwy diweddar roedd ennill Ysgoloriaeth Llenyddiaeth Cymru yn 2017 a lle ar y cwrs Ysgrifennu i Blant yn Nhŷ Newydd yn 2019 ill dau yn gamau pwysig iawn ar y daith!

Mae Dilys Williams a Carys Glyn yn fam a merch o Gwm Rhymni. Bu Dilys yn addysgwraig ac yn garwr llyfrau brwd ers blynyddoedd ac mae'n amlwg bod ei dylanwad yn fawr ar ei merch. Athrawes yw Carys sydd ar fin cyhoeddi ei llyfr cyntaf – [Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll](#) gyda Gwasg Y Lolfa y mis nesa.

**D.W:** Rwyd ti ar fin cyhoeddi dy lyfr cyntaf i blant, felly ga i ddechrau trwy drafod pa straeon a ddylanwadodd fwyaf arnat ti pan oeddet ti'n blentyn?

**C.G:** Rwy'n cofio clywed stori 'Y Pum Brawd Hynod' tra mod i'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Rhymni – stori ddigon rhyfedd am bum brawd a oedd yn medru dal y môr cyfan yn eu cegau. Am ryw rheswm, dw i'n cofio cael fy swyno'n llwyr gyda'r stori honno. R'on i wedi gwirioni gyda pa mor anhygoel oedd yr holl beth! Flynyddoedd wedyn, pan 'on i wedi dechrau ar fy swydd ddysgu gyntaf, des i ar draws y llyfr mewn pecyn ar silff yn yr ystafell athrawon - r'on i mor gyffrous!

Wrth i mi fynd yn hŷn, Roald Dahl, heb os, oedd y ffefryn. Rwy'n cofio rholio chwerthin yn y gwely yn darllen y llyfr 'Boy'. Roedd llyfrau fel **James and the Giant Peach** a **Charlie and the Chocolate Factory** i gyd yn ffefrynnau ac wrth gwrs a **George's Marvellous Medicine**. Treuliais i lawer prynhawn gwlyb yn creu cymysgiadau digon rhyfedd mewn twb bach yn yr ystafell ymolchi. Pethau rhyfeddol yn digwydd i bobl 'arferol' – dyna beth sy'n fy machu i bob tro!



**D.W:** O ble mae'r syniadau ar gyfer y straeon yn dod?

**C.G:** Mae'n *cliché* ond o bob man. Rwy'n gweithio ar nofel Saesneg i blant **'The Fabulous League of Spies Operation What-a-Whiff'** ac heb os, daeth lot o'r ysbrydoliaeth a'r ysgogiad am hwnna o fy Nain, fy Mam-gu a'n Nhad-cu. Roedden nhw'n ddylanwad enfawr yn fy magwriaeth ac mae ysgrifennu amdany'n nhw, mewn ffordd, yn gwneud i fi deimlo'n agos atynt.

**D.W:** Beth am y stori **'Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll'**, o ble ddaeth y syniad am honna?

**C.G:** Fel 'wedes i, bues i'n ddigon ffodus i fynd ar gwrs Ysgrifennu i Blant yn Nhŷ Newydd y llynedd. Yn fanna, fe gwrddais â'r arlunydd Ruth Jên. Roeddwn i wastad wedi bod wrth fy modd gyda'i gwaith ac yn chwilio am unrhyw esgus i weithio gyda hi. Dangosodd hi ddarlun i fi o bum cymeriad – roedden nhw wedi'u seilio ar anifeiliaid hynaf y byd sydd yn cael eu crybwyll yn y Mabinogi. Tynnais lun gyda fy nghamera o'r cymeriadau ac ar ôl dod nôl daeth y syniad i mi ... beth os gallai anifeiliaid hynaf y byd helpu datrys problemau anifeiliaid y byd heddiw?

**D.W:** Beth yw'r neges hoffet ti ei rhoi i'r darllenwyr gyda'r stori?

**C.G.:** Rwy eisiau i blant deimlo eu bod nhw'n gallu helpu newid ffawd y blaned gymaint ag unrhyw un arall. Mae oedolion yn prysur ddweud fod y blaned mewn perygl ond mae angen i blant ddeall bod'n bethau maen nhw'n gallu gwneud er mwyn helpu. Hefyd, fel athrawes roeddwn i eisiau testun lliwgar a bywiog i ysgogi trafodaeth a gwaith ar yr hyn gall plant wneud i helpu'r blaned.

**D.W:** Rwy'ti'n byw yn Y Fenni nawr ond sut mae dy fagwriaeth yng Nghwm Rhymni wedi dylanwadu ar dy ysgrifennu?

**C.G.:** Ces i fy magu i ymfalchio yn fy nghynefin – ces i fy nhrochi yn hanes a diwylliant yr ardal. Rydw i wastad wedi dwlu ar waith y bardd Idris Davies.... Rwy'n cofio'r balchder roeddwn i'n teimlo wrth ganu 'Ar Lannau Afon Rhymni' fel rhan o gân yr ysgol. Wrth ysgrifennu pwt am fy hun i fynd ar gefn y llyfr roeddwn i'n falch iawn o nodi fy mod i'n dod o Gwm Rhymni ac rydw i hyd yn oed wedi llwyddo i gael enw Caerffili yn y testun!

## Hedbangars Byd Natur gan Rob Evans

Pan dach chi'n dechrau meddwl yn ddwfn am fyd natur dach chi'n sylweddoli bod popeth yn ffitio efo'i gilydd fel jig-so enfawr. Dim ond rhywun fel Sir David Attenborough sydd â gobaith i osod pob darn yn ei le a dw i'n siŵr nad oes ganddo fo ateb i bob cwestiwn. Meddylwch am adar, yn fras, eu pwrpas nhw yw bwyta, ond mae rhai yn bwyta hadau, rhai yn bwyta pryfed genwair, eraill yn bwyta morgrug, rhai pysgod a rhai eggsotig yn ffafrio neithdar. Pawb at y peth y bo! Ond beth bynnag yw'r rheswm bodoli mae'r Bod Mawr wedi sicrhau bod eu cyrff yn addas at y pwrpas. I'r rhai sydd yn bwyta hadau caled mae O wedi rhoi pig



groes iddyn nhw, pig hir i'r rhai sydd yn hoffi neithdar, ac yn y blaen. Ond ym mhob teulu mae rebel, rhywun sydd eisiau creu sŵn fel oedd yr hen grwpiau pync. Pwy ydyn nhw tybed? Wel hedbangar y byd adar yw cnocell y coed. Mae'n aderyn 'high impact' go iawn. Mae'n mynd allan yn y bore a threulio'r diwrnod cyfan yn taro ei big i mewn i ryw goeden. Dychmygwch, mae o'n cyrraedd adref ac mae ei wraig yn gofyn "Sut fath o ddiwrnod wyt ti wedi cael, cariad?" A ydi o'n ateb "Paid â gofyn, mae gen i gur pen ofnadwy?" Wel na, dydi o ddim, mae'n dweud "O go dda w'st ti, mae'r diwrnod wedi

bod braidd yn hir a'r gwaith yn 'boring' wrth gwrs, neis bod adra!"

Y peth yw, ac efallai nad ydych yn gwybod hyn ond, tu ôl i'w big mae math o 'shock absorber' felly does dim rhaid i'w wraig ddod â Paracetemols iddo ar ddiwedd pob dydd, clyfar ynte!

Yn ddiweddar, wrth fynd i'r gegin efo llestri i olchi gwelais i gnochellau'r coed ar y lawnt, y fam a'r cyw. Roedd y fam yn brysur yn dangos i'r cyw sut i chwilio am bryfed genwair. Roedd hyn yn gyfle rhy dda i golli ac es i i nôl y camera a dechrau tynnu lluniau ohonyn nhw trwy'r ffenest. Doedd y cyw ddim yn cael llawer o lwc ac yn sydyn dyma'r fam yn troi ato a stwffio ei phig i mewn i'w geg, doeddwn i ddim yn disgwyl tynnu llun o'r fath ac mae'n llun i'w werthfawrogi

Nid ydych yn gwybod am faint bydd adar yn aros yn yr un lle, pan dach chi'n gweld rhywbeth fel hyn mae'n rhaid i chi wneud penderfyniad, gadael y ffenest a chwilio am y camera neu aros a mwynhau. Dw i'n falch iawn fy mod i wedi tynnu'r llun yma, fy mod i wedi dewis mynd i nôl y camera. Pan nes i adael y ffenest dim ond dau aderyn oedd yna, digon diddorol ond petaswn i wedi aros a gweld hyn mi fyddwn i wedi difaru peidio mynd i nôl y camera.

# Taith gerdded trwy Ceunant Clydach

Ond cyn dechrau, pwt bach o hanes y Ceunant cyn dyfodiad diwydiant yno, roedd e'n le hardd gwyllt iawn.



Ond erbyn yr 17eg ganrif dechreuodd diwydiant gyrraedd y ceunant. Erbyn y 18fed ganrif roedd llawer iawn o haearn a siarcol yn cael eu cynhyrchu yno, ond yn ystod y 19eg ganrif, ymledodd diwydiant drwy'r ceunant yn gyflym iawn, o ben y ceunant i'r gwaelod.

Yn 1810 prynodd Crawshay Bailey a'i frawd Joseph waith haearn yn Nantyglo, a'i wneud yn un o'r mwyaf yn y byd. Yn 1820 dechreuodd Crawshay waith ar dramffordd, o'i waith haearn yn Nantyglo i lawr ochr dde'r ceunant i lanfa Gofeilon lle adeiladodd warws tri llawr ar gyfer storio haearn a ddaeth i lawr o'i waith haearn yn Nantyglo. Cludai'r dramffordd hon galchfaen o'r chwareli yn y ceunant hyd at Nantyglo, ac ar y daith i lawr i Gofeilon, haearn, a glo o'r lefelau lleol. Erbyn hyn roedd y ceunant yn llawn o ddiwydiant.

Yn 1859 prynodd y cwmni MTA, dramffordd Crawshay Bailey, i adeiladu rheilffordd rhwng Y Fenni a Brynmawr. Dechreuodd y gwaith yn 1860. Roedd pontydd, traphontydd, twneli a gorsafoedd yn cael eu hadeiladu, a chledrau yn cael eu gosod ar gyfer yr injan stêm, ond roedd y gost o adeiladu rheilffordd mewn lle mor anodd yn ormod iddynt, a chytunodd yr LNWR i gymryd y prosiect drosodd.

Agorodd y lein rhwng Y Fenni a Brynmawr yn 1862. Hon oedd un o'r mwyaf serth ym Mhrydain. Roedd un adran yn 1/34.

Mae'r lein hon nawr yn rhan o'r rhwydwaith beicio cenedlaethol rhwng Llanffwyst a Brynmawr ac mae'n daith gerdded o tua wyth milltir ar hyd yr hen lein.

Mae'n dechrau ym maes parcio Llanffwyst. Ar ôl cerdded tua milltir gyda choed bob ochr i chi 'dych chi'n cyrraedd glanfa Gofeilon. Ar y chwith i chi mae adeilad tri llawr oedd yn arfer bod yn warws yn perthyn i Crawshay Bailey ar gyfer storio haearn o'i waith yn Nantyglo. Mae wedi'i adfer, ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio fel swyddfa gan Gamlas Aberhonddu a Mynwy.

Ychydig ymhellach ymlaen dych chi'n cerdded heibio tŷ preifat oedd yn arfer bod yn orsaf y rheilffordd. Yr unig beth sydd ar ôl nawr ydy arwydd ar wal y tŷ, sy'n dweud "Gorsaf Gofeilon". Wrth gerdded y rhan hon o'r daith, ar y dde i chi mae golygfa fendigedig o Ben y Fal sydd 1955 troedfedd o uchder.

Parhewch i gerdded, a'r lle nesaf o ddiddordeb ydy gorsaf Gilwern, lle mae'r ddau blatfform yn dal i fodoli, ac mae'r grisiau o'r platfform ar y chwith lan i'r ffordd yn dal yno.

Ychydig heibio i'r orsaf mae'n rhaid i chi adael y llwybr, a cherdded ar y lôn, oherwydd, yn anffodus, nid yw'r perchennog yn fodlon i'r llwybr fynd trwy ei dir.



Dyma ni'n gadael dyffryn Wysg nawr, ac yn dechrau ar ein taith i fyny'r Ceunant. Yn fuan ar ôl ailymuno â'r llwybr, byddwch chi'n cyrraedd traphont hardd grom. Traphont Clydach ydy hon. Ar eich chwith wrth groesi'r draphont gallwch weld olion chwarel Clydach, ac odynau calch, a ddatblygwyd yn wreiddiol i ddarparu calch ar gyfer adeiladu'r draphont a'r twneli ac yn syth o'ch blaen ar ôl gadael y draphont saif tŷ preifat a hwn yn wreiddiol oedd tŷ gorsaf Clydach, ac mae'r platfform i fyny yno o hyd. Y lle nesa o ddiddordeb ydy twneli Clydach. Mae dau dwnnel, adeiladwyd y twnnel gwreiddiol yn 1862 a'r llall yn 1877 pan ddyblwyd y trac.



Yn anffodus, fel yn Gilwern, ni allwch weld mynedfa i'r twneli o'r ochr hon oherwydd eu bod nhw ar dir preifat, ond ar ôl dilyn y llwybr dych chi'n cyrraedd ochr arall y twneli ac mae golygfa braf o dwnnel sy'n mynd i fyny ond mae 'r fynedfa o'r un sy'n mynd i lawr wedi'i guddio gan lwyni.

Wrth edrych ar draws y ceunant tuag at fynydd Llangattock gallwch weld y Bugail Unig, darn o graig calchfaen, tua phymtheg troedfedd o uchder, ond stori arall yw honno.



Ychydig ymhellach ymlaen ar ôl gadael y twneli dych chi'n croesi'r ffordd sy'n arwain at Fryn Llanelli, fan hyn, yn wreiddiol roedd croesfan rheilffordd Bryn Llanelli. Y ddau le olaf o ddiddordeb - mae dau dwnnel Gelli Felen ac ychydig heibio iddyn nhw mae gorsaf Gelli Felen, yn anffodus mae rhan olaf y daith wedi cael ei dinistrio gan y gwaith sy'n cael ei wneud ar ffordd Blaenau'r Cymoedd.



Mae'r ceunant yn dal i fod yn gartref i goed ffawydd hynafol, yr hynaf ym Mhrydain. Cafodd y rhan fwyaf ohonynt eu torri i lawr i gynhyrchu siarcol ar gyfer y ffwrneisi a oedd yn y ceunant ar y pryd. Ond oherwydd bod rhannau dyfnaf y ceunant mor anhygyrch, roedd yn amhosibl cyrraedd y coed felly achubwyd y coed yma.

Mae hon yn daith gerdded hyfryd, trwy ardal mor brydferth, gyda golygfeydd hyfryd o'r mynyddoedd, ac yn llawn o hanes diwydiannol, gyda straeon am y tylwyth teg, coblynnod a gwrachod. Mae'r ceunant yn dal i fod yn lle hardd i gerdded hyd yn oed ar ôl canrifoedd o gael ei ecsbloetio gan ddyn. Ac fel Abercarn, mae stori am y pwca hefyd. Mae un rhan o'r ceunant yn dwyn yr enw enw Cwm Pwca ac yn ôl un stori, hwn oedd lleoliad gwreiddiol drama Shakespeare, A Midsummer Night's Dream.

*Malcolm David*

## Y Gaucho o'r Ffos Halen'

*gan Carlos Dante Ferrari*

O ran llyfrau rwy'n tueddu i fod yn ddarllenydd eithaf dethol ...anaml y mae ffuglen yn apelio ataf ...ac nid nofel fel rheol yw fy newis cyntaf i'w darllen ...oni bai ei bod yn seiliedig ar ryw ddigwyddiad hanesyddol go iawn. Ac mae'r haf yn tueddu i fod yn gyfnod o anactifedd i mi o ran darllen, yn bennaf oherwydd atyniadau niferus yr awyr agored. Fel rheol, byddaf yn neilltuo amser ar gyfer darllen da i'r nosweithiau tywyll hynny pan allaf ddarllen wrth fodd fy nghalon, yn eistedd yn fy nghadair twb clyd dan olau fy lamp ddarllen. Felly, yn anarferol i mi, yn ddiweddar rwyf wedi gorffen darllen nofel gan un o fy ffrindiau Facebook, Carlos Dante Ferrari Doyle... 'Y Gaucho o'r Ffos Halen.' Mae'r nofel wedi'i chyfieithu'n arbennig i'r Gymraeg o'i fersiwn Sbaeneg wreiddiol 'El Riflero de Ffos Halen' gan Gareth Miles.

Mae Carlos yn byw yn Nhrelew ym Mhatagonia ac mae'n un o ddisgynyddion yr ymsefydlwyr cynnar yn y Wladfa. Fe'i ganed yn ardal Bryn Gwyn ger Gaiman yn Nyffryn Camwy o dras Cymreig ar ochr ei fam, mae wedi ennill sawl gwobr am farddoniaeth yn Eisteddfod y Wladfa ac yn ymfalchïo yn ei aelodaeth o Orsedd y Wladfa. Yn 2001 roedd ei nofel 'El Riflero de Ffos Halen' yn un o bum nofel (o blith 455) a gyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth genedlaethol i ddewis nofel gyntaf orau y flwyddyn.

# Y GAUCHO O'R FFOS HALEN



Sbaeneg yw iaith gyntaf Carlos a dyna'r iaith y mae'n ysgrifennu ynddi; ac mae hefyd yn siarad Saesneg (mae fersiwn Saesneg o'r nofel ar gael hefyd). Dywed nad yw'n siaradwr Cymraeg rhugl, gan mai dim ond ychydig bach o'r hen iaith lafar a ddysgodd fel plentyn... "Dysgais Gymraeg cymedrol iawn pan oeddwn yn blentyn a daeth fy nain Gwenfron adref i fyw ei blynnyddoedd olaf gyda ni. Roedd hi'n siarad yn Gymraeg gyda fy mam trwy'r amser." Ond serch hynny mae wedi gwneud yn dda iawn wrth ddefnyddio ei Gymraeg gyda mi.

Mae 'Y Gaucho o'r Ffos Halen' yn nofel afaelgar iawn, sydd wedi'i thrwytho â hanes a diwylliant y Wladfa. Dyn ifanc yw Ifor Thomas sy'n dysgu cyfrinachau'r paith, yn cyfeillachu â'r Brodorion, yn dioddef o 'dwymyn yr aur' am gyfnod, yn ymuno â'r fintai gyntaf i deithio o Ddyffryn Camwy i'r Andes ac yn dod i adnabod yr herwyr Butch Cassidy, Sundance Kid ac Etta Place. Mae'n werth ei ddarllen.

*'Y Gaucho o'r Ffos Halen'*

ISBN (Rhif Llyfr Safonol Rhyngwladol): 0-86381-922-2

Gellir dod o hyd i'r llyfr (ynghyd â llyfrau eraill Carlos) ar-lein trwy fynd i Amazon a nodi Carlos Dante Ferrari yn y blwch chwilio.

Gellir dod o hyd i'r llyfr ar-lein hefyd trwy fynd i eBay a nodi Y Gaucho

o'r Ffos Halen neu Carlos Dante Ferrari yn y blwch chwilio.

Clive Williams

## Tocynnau Cymun



Ym mis Awst gwnes i sôn am brinder arian mân ar ddiwedd y 18fed a dechrau'r 19eg ganrif a phwysigrwydd cwmni Mynydd Paris mewn creu tocynnau i lenwi'r bwlch. Ond mae 'na docynnau eraill. Defnyddiwyd tocynnau er mwyn gamblo ac roedd y Co-op yn defnyddio tocynnau ymhell i mewn

i'r 20fed ganrif.

Ond efallai mai'r tocynnau mwyaf od ydy tocynnau ar gyfer y Cymun. Roedd blaenoriaid y capel neu'r eglwys yn rhoi tocyn i'r rhai oedd am dderbyn y Cymun. Roedd hyn yn golygu rhyw fath o farn foisol.

Yn ôl yr hanes, John Calvin oedd yn gyfrifol am y syniad yng Ngenefa yn y 1560au a dechreuwyd eu defnyddio yn Ffrainc yn y cyfnod 'ny. Ond mae'r rhan

fwyaf o docynnau sydd ar gael i'r casglwr yn dod o'r Alban yn y 18fed a 19eg ganrif. Mae 'na un neu ddau docyn ar gael gyda dyddiad o'r 20fed ganrif ond erbyn hynny tocynnau papur oedd yn

cael eu defnyddio gan fwyaf.

Fel arfer doedd y tocynnau cymun ddim yn grwn - i wneud yn siŵr nad oeddent yn cael eu cymysgu ag arian? Maen nhw'n sgwâr, hirgul neu

hirgrwn. Mae'r rhai cynnar yn syml iawn gyda llythrennau yn unig yn golygu enw'r offeiriad. Mae'n debyg fod yr offeiriad yn mynd â nhw o gapel i gapel gyda nhw.

Erbyn y 19eg ganrif roeddent dipyn yn fwy crand gydag enw'r capel, lluniau a'r flwyddyn ar yn ochr a neges fel, "*Do this in Remembrance of Me*" neu "*Let a man examine himself*" a chyfeiriad at yr adnod o Epistol y Corinthiaid.

Mae rhai tocynnau â rhif arnyn nhw. Yn nhraddodiad Presbyteraidd yr Alban mae'r rhai sy'n derbyn yr Elfennau yn eistedd o gwmpas y bwrdd. Does dim lle i bawb ar yr un tro ac felly mae'n rhaid cael "*sittings*". Felly mae'r rhif yn dweud ym mha "*sitting*" ydach chi.



Allan Cook



# Carn y Bugail Heddiw



*Carn y Bugail, man cychwyn ein hanes*

Mae'n hen hanes ni yn y cymoedd wedi ei ysgrifennu ar ein mynyddoedd. Y ffermwyr cyntaf, ryw chwe mil o flynyddoedd yn ôl, a dorrodd y coedwigoedd i lawr a chreu'r gweundiroedd a'r corysdd a welwn heddiw.

Rhwng pedair a dwy fil o flynyddoedd yn ôl byddai pobl yr Oes Efydd yn claddu

eu meirw ar ben y brynau, gan godi carneddau mawr a bychain. Carn y Bugail yw'r enwocaf o'r rhain yn ein hardal ni, ond nid yr unig un. Mae cannoedd o garneddau bychain wedi eu darganfod ar Fynydd Gelligaer, a ddisgrifiwyd y fel "un o dirweddau archeolegol mwyaf hynod Cymru" gan yr archaeolegydd Frank Olding.

Gellir dweud felly bod hanes ein cwm ni yn dechrau ger Carn Bugail, a thros y canrifoedd mae'n hanes wedi llifo drosto. Cerddodd milwyr Rhufain heibio iddo ar yr heol sy'n arwain o'u caer yng Ngelligaer i'w caer ym Merthyr.



Mae Maen **Nefroihi**, rhwng yr heol honno a Charn y Bugail, yn ogystal ag olion Capel Gwladys ryw hanner milltir i ffwrdd i gyfeiriad Bargod, yn tystio bod saint cynnar Cymru wedi rhodio'n brynau hefyd. Ganrifoedd wedi hynny byddai Llywelyn Fawr o Wynedd a Llywelyn Bren, arglwydd Senghennydd, wedi arwain eu milwyr dros y brynau hyn.

Mae olion Dinas Noddfa, clwstwr o gartrefi o'r Oesoedd Canol, yn gorwedd yng nghysgod yr hen garn, gan dystio'n fud i fywyd syml trigolion yr ardal hon yn y cyfnod hwnnw, ac am ganrifoedd wedyn. Ai disgynyddion i'w preiddiau hwy yw'r defaid sy'n pori'r un brynau heddiw? Yr erwau o gwmpas Carn y Bugail fu cynefin sawl cenhedlaeth ohonynt.

Cynhaliwyd Ffair y Waun ychydig ymhellach i ffwrdd o Garn y Bugail, i gyfeiriad Fochriw, a bu'r ffair yn gyrchfan boblogaidd a phwysig am ganrifoedd lawer: dyma le prynid a gwerthid nwyddau o bob math, ac yno hefyd y cynhelid y sioeau a ddifyrrai'r bobl. Ceir y cyfeiriad cyntaf at Ffair y Waun mor gynnar â 1474. Ym 1739 teithiodd Howell Harris trwy'r ffair ar ei ffordd i Gelligaer. Roedd yn mynd i gwrdd â George Whitfield yng Nghaerdydd, a byddai wedi marchogaeth ar yr hen heol heibio i Garn y Bugail.

Does dim sôn am Ffair y Waun heddiw, ond mor ddiweddar â'r 1950au byddai fy nhad-cu, a fagwyd yn Fochriw yn yr 1880au, yn hel atgofion amdani, am y sbort a'r sbri, y ceffylau a'r paffio, gan lafar ganu "Ffeiar awê, Ffair y Waun/I weld y brain yn ffraeo!" - hynny yw, yr adar brithion fyddai'n mynychu rhialtwch y ffair ac wrth gwrs yn teithio heibio i Garn y Bugail ar eu ffordd.

Mae ceffylau'n pori ar y mynydd hefyd, ac yn ein hatgoffa am y ceffylau pwn oedd yn cario llwythi o bob math heibio i Garn y Bugail, gan gynnwys nwyddau ffair - a llwythi o haearn o ffwrnesi cynnar y Blaenau.

Daeth y camlesi, rheilffyrdd a thraffyrdd, ac yn ystod y ganrif ddiwethaf tawelodd prysurdeb yr hen ffyrdd dros y brynau. Ond mae rhai yn eu defnyddio o hyd, ac yng nghysgod Carn y Bugail heddiw mae tystiolaeth i fywyd a gwerthoedd rhai o drigolion presennol ein bro. Mae'r mochyntra hwn hefyd yn rhan o'n hanes ni bellach.



*Carn y Bugail HEDDIW!*

# Cofio Dai

**Dai Pendre, Rhydlewis 1942 – 2019**



*Teyrnged Dafydd Islwyn i'w ffrind Dai Rhys  
Davies a fu farw y llynedd.*

Mae'r englyn ar goll  
yn Rhydlewis  
a'r delyneg yn isel ei hysbryd

Mae'r emyn yn drwm  
ei galon  
yn Hawen  
ac mae'r awen  
yn gwisgo'i du  
ar lannau Ceri.

Ni ddaw'r gwynt  
Yn ôl i'w hwyliau  
am nad oes bardd  
ym Mhendre.

## Clwb Darllen “Cwmni”

*Mae'r Clwb yn dal i rhannu eu hoff llyfrau gyda'n darllenwyr yn ystod y cyfnod y cloi mawr.*

Wedi porthi ar nofelau awduron yr hen glasuron, lle cafwyd mwynhad mawr yng nghwmni Daniel Owen, T. Rowland Hughes ac Islwyn Ffowc Elis, dyma fentro at gyfnod mwy modern. Ac yn dod o hyd i weithiau o ganol y ganrif o'r blaen a hynny yn nghwmni John Elis Williams, tad y nofel dditectif Gymraeg.

Ac mae yn sicr yn feistr ar ei grefft. Lluniodd ddeg cyfrol afaelgar mewn dwy set o bum nofel. Y naill yn delio ag achosion yr Inspector Hopkyn ac enw'r llall yw Cyfres Parri. Doedd y llyfrau ddim gen i pan ddarllenais nhw gyntaf yn ystod fy arddegau ond codais ryw chwe theitl mewn siopau llyfrau ail law ar hyd y blynyddoedd. Ddwy neu dair blynedd yn ôl canfum fod gan gyfaill gopiau nad oedd gen i, a dyma wledd!

Gosodir pob nofel o fewn cymunedau cartrefol Cymraeg â llawer yn digwydd ar aelwydydd cyffredin wedi'r Ail Ryfel Byd. Mae'r cymeriadau hyn yn fyw – ein mam-gu a'n tad-cu ni ydyn nhw. Ond yn ogystal, ceir plot dyfeisgar a gwreiddiol ym mhob un. Caiff bardd ei saethu wrth ei gadeirio mewn eisteddfod wrth i sŵn a golau fflachiadau llw o ffotograffwyr foddie ergyd y gwn yn 'Y Gadair Wag'. Yn 'Y Gymwynas Olaf' mae Hopkyn yn datrys sut y lladdwyd gŵr yn ei stafell wely â'r drws ar glo – o'r tu fewn!

'Porth Ewyn' yw ei nofel olaf yn y gyfres, ffaith a nodwyd ym mrolant y gyfrol. Wrth gyhoeddi mai hon yw'r olaf, gobaith y cyhoeddwyd yw y bydd J. Ellis yn dynwared yr enwog Arthur Conan-Doyle a wnaeth i ffwrdd â'i arwr enwog Sherlock Holmes. Ond mynnodd pwysau poblogaidd fod yr awdur yn ei atgyfodi. Gobaith Christopher Davies (Cyhoeddwyd), Llandybie, oedd gweld y gamp hon yn cael ei hefelychu ond, gwaetha'r modd, ni ddigwyddodd hyn. Ac nid ofer yw cynnwys J. Ellis Williams yn yr un fantol â'r Albanwr byd enwog.

Does dim amheuaeth nad yw John Elis wedi braenaru'r tir ar gyfer awduron llyfrau ditectif ein hoes ni. Diolch iddo fe bod cystal llyfrau ar gael ar ein cyfer gan awduron fel John Alwyn Griffiths, Geraint Evans ac, wrth gwrs, ein hawdur lleol Gareth Wyn Williams.

Ysgrifennodd y John Ellis Williams toreithiog ei hunangofiant yn ystod chwe degau'r ganrif o'r blaen. Mae'r gyfrol yn dwyn y teitl cwbl addas, "Inc yn fy Ngwaed". Mae allan o brint ers degawdau ond byddwn i wrth fy modd yn dod o hyd i gopi. All unrhyw un allan fan 'na'n helpu i?


*Ben Jones*



# Pantglas

gan Mihangel Morgan

Mae darllen “Pantglas” gan Mihangel Morgan yn debyg i ddarllen hanes y Titanic. Rydym yn gwybod beth sy’n digwydd yn y diwedd. Dyma hanes pentref mewn cwm sy’n mynd i gael ei foddi i greu cronfa ddŵr er budd tref yn Lloegr.



Mae’r stori’n eithaf cyfarwydd i’r rhai sydd wedi darllen hanes Tryweryn neu Llangyndeyrn. Roedd brwydro ffyrnig yn y ddau le. Yn achos Tryweryn, yn aflwyddiannus. Mae tristwch ac anghyfiawnder yr achos yn dal i adael blas cas ofnadwy.

Mae Cymru yn ddigon bach i’r darllenwr deimlo eisiau lleoli prif ddigwyddiadau unrhyw nofel. Mae Mihangel Morgan ei hunan yn egluro taw “..... cyfuniad o Lanwddyn (Cwm Efyrrwy) a Chwm Taf yw Pantglas”. Mae hwn yn gadael dryswch pur drwy gydol y llyfr - ble ydyn ni?

Mae digwyddiadau’r stori yn cymryd lle ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef yr adeg iawn i’r ddau fan a enwyd gan yr awdur. Does dim hanes mewn bodolaeth am sut roedd trigolion y cymoedd yma yn teimlo o gael eu troi allan. Rydyn ni ond yn gallu meddwl fod y teimlad yn debyg i anobaith Capel Celyn ond nid dyma’r teimlad o gwbl yn y llyfr. Mae’r pentrefwyr yn parhau â’u bywydau beunyddiol, clecs, caru, gweithio ac yn y blaen fel petai dim byd yn digwydd. Mae’r trigolion yn diflannu fesul teulu ac fel petai neb yn sylwi. Gweithwyr yr argae â’u pentref dros dro yw dihirod y stori. Maent yn dwrdio’r pentrefwyr bob cyfle.

Wrth ddarllen y llyfr, mae’r iaith hyfryd yn llwyddo i ddenu’r darllenwr ymlaen mewn modd y mae’r stori ei hunan yn methu â gwneud. Mae clawr y gyfrol yn ddeniadol iawn gyda llun Ruth Jên ond efallai yn dwrdio’r trigolion yn yr un modd â’r adeiladwyr Seisnig. Mae’r steil gartwnaidd yn anaddas.

Os am ddarllen am awyrgylch pentref sydd ar fin cael ei foddi, ‘Bro a Bywyd Capel Celyn’ yw’r llyfr sydd ar flaen y gad.

Mary Jones

## P’nawn yn yr Ardd

Yn ystod y cyfnod hwn o hunan ynysu mae fy ngardd i yn lle i ddihengid, deimwnsiwn arall, cyfarwydd, ers i’r tywydd d roi mor braf. I mi, canol y dydd yw’r pwynt pellaf o ddechrau neu orffen gwaith, ond dyma fi’n gorwedd nôl, heb unrhyw fwriad o wneud dim, ar fy mainc bren lydan, dan yr hen helygen. Mae fy mhen hanner yn y cysgod, fy nghoesau dan flanced o haul, gyda nenfwd o awyr las glir yn llenwi rhwyll o ganghennau mân uwch ben. Wrth ffocysu fy llygaid, dw i’n gallu gweld taenelliad o flodau pussy fel siwgr Demerara, ar gyrion yr helygen. Wedyn, mae dot du mawr yn ymddangos, yn dawnsio mewn a mas fel penbwl cyn cwmpo’n sydyn lawr ata i fi, a bant a fe gyda ‘buzz’ cyfarwydd â chipolwg o felyn a phen-ôl hufennog. Gwenynen frenhines yw hi, bydd hi’n dechrau’r cenhedlu nesa, trwy sefydlu nyth newydd mewn twll llygoden fach agos. Defnyddir y paill i greu cell protein ar gyfer y larfa newydd.

Yn rhannu’r un blodau mae perfformwyr y goruchaf, yr acrobataid adnabyddus, y Titw Tomos Las. Yn gorwedd ar fy nghefn dw i ddim yn siŵr pwy sy wyneb i waered. Rwyf wedi eu gweld nhw’n gynt yn sipian y neithdar oddi wrth y blodau Pieris (flame flower), ond y tro ’ma dw i’n credu bod nhw’n efelychu’r cachgibwm drwy fwydo ar y paill, achos mae pryf yn dal yn weddol brin.

Wedyn, nid yn annisgwyl, dyma fy hoff ffrind i gyd-ymdeithio â fi, ei lais trist, dymunol yn arwydd o’i gariad. Enaid dewr yw e ac mae e’n dod mewn i ’nghartref yn achlysurol.



Yn ddiddorol, y pâr nesa, gwelais i nhw ddoe, am y tro gyntaf. Maen nhw'n pigo ar hyd y canghennau tan mae eu pigau yn llawn cen. Titw Tomos Cynffon Hir, tlysiion ydyn nhw, ond tlysydd hefyd. Well na unrhyw Wy Faberge, mae nhw'n creu nyth pêl feddal, fel glain arbennig. Defnyddiant gen, plu a gwe côr. Dyna beth sy'n fy atgoffa i, i gynyddu potasiwm ar y twmpyn gwrtaith tu ôl y shed pan aflonyddais i arnyn nhw'n casglu gwe côr.

Ac yn olaf, gobeithion o dymor i ddod, mae ymwelydd cyntaf yr Haf wedi cyrraedd, sef Telor yr Helyg. Cipolwg swil ohono fe'n unig, ond mae ei lais yn diferu lawr yr hen goeden fel mae'r heulwen yn tywynnu trwy fy nhŷ gwydr.


*Ceri ben y mynydd.(Kerry Galey)*

## ***Pererindod Felynyddol***

Ryw ddiwrnod neu ddau cyn Sul y Blodau mi fyddaf yn arfer ymweld â beddau teuluol mewn tair mynwent yn yr hen Sir Forgannwg. Wrth reswm, methais fynd eleni a thrist yw meddwl am yr holl feddau di-flodau ar Sul a fydd fel arfer yn rhyfeddol o liwgar.

Yr ymweliad cyntaf bob tro fydd â bedd fy mam-gu a thad-cu ym mynwent amlosgfa Glyntaf, Ellis ac Eiddwen Jones, gynt o Bontrhydygroes medd eu carreg fedd. Yna ymlaen at fedd rhieni Eiddwen ym mynwent Llanfabon, ar ben y bryn sy'n codi y tu ôl i Gilfynydd, yr hen eglwys blwyf. Eglwys o oes Fictoria yw'r adeilad presennol ond ar sail llawer cynharach gyda chofnod o sefydlu eglwys yma yn mynd yn ôl mor bell â'r unfed ganrif ar ddeg.

Rwyf wrth fy modd yn Llanfabon : mae golygfeydd bendigedig ym mhob cyfeiriad a dim yno i darfu ar y llonyddwch heblaw am y dafarn a thŷ neu ddau. Fel yn Eglwys llan gyda dim ond y dafarn gerllaw, cawn ein hatgoffa o'r hen Forgannwg cyn dyfodiad y pyllau glo, sir amaethyddol hardd a'r trigolion yn teithio am filltiroedd ar y Sul i fynychu eglwys y plwyf. Yn y fynwent fwyaf newydd gyferbyn â'r eglwys, mae bedd un hen fam-gu a thad-cu ac hefyd carreg goffa i sawl un o'u plant a gladdwyd ymhell o gartref : un yn yr Unol Daleithiau, un a foddwyd pan oedd ar y môr ac un arall a laddwyd yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.



Ymlaen i gyrchfan olaf y bererindod – mynwent Abercynon a bedd teulu brawd yr hen fam-gu sy yn Llanfabon. Yn drist, nid oes disgynyddion i'r teulu hwn ond roedd ei dwy gyfnither yn annwyl iawn yng ngolwg fy mam-gu ac felly rwy'n teimlo rhyw gyfrifoldeb i dalu ymweliad achlysurol â'r bedd hwn hefyd. Mae mynwent Abercynon ar y llethr sy'n codi'n serth uwchben y pentref ac nid yw'n rhwydd dod o hyd iddi. Fe'i hagorwyd yn 1901 ac fe benderfynwyd ei hamgylchynu â wal garreg uchel a phlannu coed tywyll yma a thraw.

Effaith hyn yw bod y fynwent yn dywyll a braidd yn fygythiol. Ar y prynhawn Sadwrn cyn Sul y Blodau bydd digon o bobl o gwmpas fel arfer, ond fydda i ddim yn oedi ar ôl gosod blodau ar y bedd. Mae gormod o gysgodion yn y fynwent hon ac ni allaf lai na meddwl y byddai'n lleoliad perffaith i ffilm yn dangos ail-ddyfodiad Dracula! Ond mae cofio aelodau'r teulu yn bleser bob amser a chael cadw llygaid ar eu beddau yn frain.

*Ann Lewis*



## Trwy gyfrwng Zoom i bendraw'r byd - eto!

Mae Merched y Wawr Cwm Rhymni yn dal i "gwrdd" trwy gyfrwng Zoom, ond nid yw hynny'n ein cyfyngu o gwbl yn ddaearyddol. Aethon ni draw i Papiwa Gini Newydd fis diwethaf, a'r mis hwn aethon ni i'r Wladfa yng nghwmni Anwen Hill, un o'n haelodau.



*Cofeb Porth Madryn*

Mentrodd Anwen a'i gŵr Ivan ar daith annibynnol i'r Ariannin yn ddiweddar a thrwy hynny yn cael cyfle gwych i ddod i nabod y wlad a'i phobl. Nid oedd car ganddynt chwaith, ac mae defnyddio cludiant cyhoeddus hefyd yn mynd â chi wyneb yn wyneb â realiti

bywyd ym mhob gwlad. Os ewch dramor gyda chwmni, y duedd yw i chi deithio gyda chriw o bobl debyg i chi eich hun, mewn cerbyd moethus uchel a chael profiadau "twristaidd" wedi eu darparu i chi. Cewch flas o'r wlad, ei hanes a'i diwylliant, ond mae fel edrych trwy ffenest siop yn hytrach na siopa.

Ac aeth Anwen ac Ivan i siopa go iawn yn y Wladfa. Roedd yn amlwg iddynt brofi croeso arbennig yno, a bod sŵn y Gymraeg yn agor drysau - a chalonnau - iddynt. Roedd lluo o storïau a lluniau gan Anwen, ond roedd agosatrwydd trigolion y Wladfa, a chaledi eu bywydau, yn disgleirio trwy'r cyfan. Ymwelsant â mwy nag un lle difyr, yn dilyn sgwrs â rhywun yn y stryd a chael gwahoddiad i fynd yno yn eu car ("Neidiwch i mewn!"). A dyna nhw mewn capel, boed Bethel neu Foreia neu Fryn Crwn: bocs llwm o frics mewn crindir anial o'r tu allan, a'r tu fewn fel unrhyw Fethel neu Foreia mewn unrhyw stryd yng Nghymru. "*Bizarre*" oedd gair Anwen am y cyferbyniadau hyn, a rhaid oedd i ni gytuno â hi.

Cafodd hi ac Ivan ymweld â'r mannau hanesyddol i gyd, o Borth Madryn i Drelew a'r Gaiman a chwrdd â rhai o enwogion y Wladfa, fel Eluned Gonzales. Cawson nhw brofi *asados* enwog yr Ariannin (sy'n codi braw ar lysieuwyr) a thristáu uwchben beddau rhai o'r fforwyr cyntaf a chreigiau llwm eu glanfa. Digon o ryfeddod oedd y trysorau Fictoraidd a gludwyd draw dros y cefnfor yn y *Mimosa* gan y fforwyr hyn. Cymerodd hi bum niwrnod i ddadlwytho'r llong – nid dim ond dillad, bwyd, offer a chelfi oedd ynddi, ond sawl harmoniwm a pheiriant gwnïo hefyd. Mae rhai o'r rhain yn amgueddfeydd y Wladfa erbyn hyn, a bu Anwen ac Ivan yno hefyd i weld arddangosfeydd tebyg i rai Sain Ffagan mewn cyd-destun hollol Sbaenaidd.



*Capel Moreia Trelew*



*Ysgol y Cwm Trefelin*

Sbaeneg yw iaith swyddogol y wlad, a dewis iaith y mwyafrif o drigolion y Wladfa heddiw, er bod llawer yn siarad Cymraeg perffaith, ac yn ymfalchïo ynddi. Ymwelodd Anwen ac Ivan â rhai o'r ysgolion a chanolfannau Cymraeg,

wrth gwrs, a phan gwrddodd Anwen â Nia, sy'n dod o Aberteifi'n wreiddiol, cafodd brofiad *bizarre* arall. Mae Nia wedi ymgartrefu yn y Wladfa, yn dysgu Cymraeg yno, a phenderfynodd fod Anwen yn "adnodd da iawn", gan sicrhau ei bod yn gwneud ei rhan i fywiogi'r wers!

Diolch yn fawr i Anwen am rannu llun o'r wers gofiadwy honno gyda ni, a'r holl luniau a storïau a ddaeth â'r Wladfa bell mor agos aton ni yn ein cartrefi clyd ar brynhawn gwlyb o Awst. Ni fyddwn yn mentro mor bell fis Medi, ond i ardd lysiau'r Bontfaen, a hynny ar brynhawn dydd Mercher, Medi 16.

# ***"Lost in Translation" (1)***

Ym more oes Ysgolion Cymraeg yn y De Ddwyrain bu'n rhaid dibynnu llawer ar athrawon o'r Gogledd a'r Gorllewin oedd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, a sawl un wedi'i fagu mewn cymunedau uniaith Gymraeg. Ac er yn rhugl eu Cymraeg, llai sicr oedd rhai ohonynt yn eu defnydd o Saesneg. Ceir ffynhonnell gyfoethog o'r camsyniadau a wnaed gan ein cydwladwyr mewn casgliad a gyhoeddwyd yn y llyfryn, "Mae'r Ffynhonnau'n Fyw", cyfrol i ddathlu deugain mlynedd o addysg Gymraeg yn y Rhondda yn 1990. Mewn erthygl yn dwyn y teitl, "Clywyd ar y Feranda", cofnodwyd ambell berll!

Cafodd dyn garej lleol syndod pan alwodd Cymro o'r Gogledd â theiars ei gar braidd yn fflat, o glywed y cais, *"Will you put a bit of wind in my wheels?"* Methu a chyrraedd garej a wnaeth yr un modurwr ar adeg arall a gorfod galw ar yr AA. Y dyn bach yn cyrraedd yn ei fan felen ac yn holi, cyn dechrau trwsio, *"Are you a Relay Member?"* a derbyn yr ateb, *"O yes, I really am a member."*

Cafodd y Cymro uniaith lawer o drafferth erioed â'r ffaith fod y ferf "torri" yn ymrannu yn ddwy ferf wahanol yn Saesneg. Un canlyniad i'r camddeall a ddilynai'n anochel o hyn, fu i athrawes awgrymu wrth un o'r mamau y dylai ei chrotyn dorri ei wallt gyda , *"Will you get the boy to break his hair!"* Ac ar ei ymweliad cyntaf â barbwr yn Nhreorci ceisiodd un aelod o staff yr ysgol egluro ei fod am gael ei wallt wedi'i dorri'n fyr gan wneud yn siwr fod rhanniad yn y canol. Doedd y barbwr ddim llawer callach o dderbyn y cyfarwyddyd, *"Can I have my hair broken small with a line down the middle?"* Anogwyd plentyn arall a dueddai gyrraedd yn hwyr yn y bore i gyrraedd erbyn naw y bore , *".... and be here against nine."*

Roedd rhieni un plentyn yn hen gyfarwydd â chlywed ei athrawon yn dweud mor siaradus oedd eu mab ond cawsant eu synnu un noson agored o ddeall ei fod hefyd yn *"very talkable"*. Ond, beth bynnag am yr iaith, pobol barod eu cymwynas yw'r hil uniaith Gymraeg sy'n ddigon bodlon pob amser i, *"put the drips in his eyes"* neu to *"give him a disposable aspirin"*. Sut mae egluro wedyn fod y plentyn wedi syrthio i mewn i ffos? Wel, siwr iawn, wrth ddweud, *"He's fallen in the dutch"*.

Weithiau, byddai'n rhaid mynd at y meddyg a hwnnw , yn anochel bron yn ddi-Gymraeg. Sut felly mae egluro tymheredd uchel sef dweud bod gwres arni? Mentro arni drwy ddweud, *"I've got a heat."* Cafodd y claf ei phoeni gymaint gan hyn nes iddi ddatblygu ateb parod. *"Hitiwch befo, fedr y Saeson siarad ond un iaith. A phwy sy'n mynd i boeni nad ydyn nhw'n ein deall ni yn y De."* Ydy hyn, tybed, yn achos o fynd dros ben llestri, neu fel y dywedodd yr un athrawes wrth riant am ei mab a dueddai i fod yn un gwyllt gan fynd dros ben llestri, *"He tends to go across the dishes you know."*

Ond gwneud ei gorau glas neu ei *"blue best"* a wnaent i gyfathrebu â thrigolion "Y Gweithie". Dywedwyd am un a dderbyniodd goed tân ar gyfer ei fflat, gan dad un o'r plant, o'i weld yr ochr draw i'r hewl dyma alw arno, *"Thank you for the trees!"* Rhaid fod hwnnw'n deall yn burion. Ond doedd hyd yn oed cadw at y pwnc diogel hwnnw, y tywydd, ddim yn sicrhau na fyddai unrhyw "bloomers" chwaith. Ond, dyna ni, beth sydd o'i le ar ddweud, *"It's raining snow!"* (bwrw eira) ac mae'n ddigon teg dweud, wrth ddisgrifio'r tywydd ar ddiwrnod diflas, ei bod, *"a bit drab and dribbling too."*

Does dim modd cael yr holl staff mewn Ysgol Gymraeg, yn yr ardaloedd hyn, i fod yn rhugl yn yr iaith, Ond, yn ddigon aml, mae menywod cinio a staff cynorthwyol eraill yn gwneud tipyn o ymdrech i ddysgu'r iaith. Roedd un fam felly yn ceisio dwyn perswâd ar grotyn bach dagreuol i fwyta'i sglodion, *"Wyt ti'n moy'n 'alen, bach?,"* gofynnodd yn garedig. A ffrind y crotyn bach yn ceisio helpu drwy gywiro'r fam ginio, *"'Is name's not Alun, myn!"*

Ond efallai mai'r clasur a ddaeth o Ysgol Gymraeg Ynyswen oedd y stori am un o'r mamau cinio yn ceisio gwella'i Chymraeg er mwyn osgoi defnyddio mwy a mwy o Saesneg yn ystod yr awr ginio. Felly, gofynnodd i athrawes beth oedd *"bean"* yn y Gymraeg. Cafodd wybod mai "wedi bod" oedd y cyfieithiad priodol. Ond synnwyd pawb yn y neuadd fwyta wrth glywed y fenyw yn uchel ei chloch yn annog y plant, *"Dewch nawr, blant. Bwytwch eich wedi bods i gyd!"* Chwarae teg roedd yn gwneud ei *"blue best"* (eu gorau glas) i ddefnyddio'r iaith.

Ben Jones





Unwaith eto, pleser yw cael anfon adroddiad blynyddol atoch ar ddiwedd blwyddyn ariannol BanglaCymru. Rwy'n falch o allu adrodd bod yr elusen yn dal i lewyrchu ar yr arian a godwyd hyd at ddiwedd Medi '19. Byddwn yn defnyddio pob ceiniog sy'n weddill i gynnal yr achos am ychydig flynyddoedd i ddod. Fel arfer, crynodeb yw'r adroddiad hwn o negeseuon anfonwyd i'ch diweddarau ar-lein yn ystod y flwyddyn.

Mae ein canolfan yn Chittagong yn dal i wasanaethu'r tlodion sy'n cael eu gweld gan Dr Jishu, ein cydlynnydd meddygol ac un meddyg arall. Mae ein hymwelydd iechyd erbyn hyn yn cael ei hariannu gan BanglaCymru, a mawr yw ein diolch i Siroptomists Pontypridd am ei noddi gyhyd. Yn anffodus, ers dyfodiad coronavirus, mae'r ganolfan wedi cau dros dro oherwydd nad oedd y staff yn fodlon gweithio dan yr amgylchiadau presennol. Penderfynodd Dr Jishu ddargyfeirio a gwario tua £100 yr wythnos ar fwyd sylfaenol i deuluoedd tlawd oedd ar lwyg mewn rhan o Chittagong. Mae hefyd wedi trefnu grŵp o gefnogwyr i weinyddu amlosgiad parchus i rai gollodd eu bywydau i'r aflwydd.

Mae'r datblygiad llwyddiannus ddechreuwyd dair blynedd yn ôl, sef ein clinig llygad a gynhelir bob pythefnos, yn dal yn ddarpariaeth fuddiol. Ar gyfartaledd mae 30 o gleifion yn ymweld â'n canolfan i gael eu gweld yn y clinig, a mawr yw eu diolch am y ddarpariaeth. Rwy'n dal i dderbyn adroddiadau misol ar ein canolfan, ein meddygfa symudol, ac ar gyflogau'r staff.

Fel sy'n wybyddus, ein prif genhadaeth yw rhoi llawdriniaeth i rai sy'n dioddef o wefus a/neu daflod hollt a rhai sydd wedi dioddef llosgiadau difrifol. Profais yn gynharach eleni un o'r sesiynau hyn yn ninas Tangail pan berfformiwyd 39 o lawdriniaethau hollt, gan fwyaf ar fabanod a phlant bach. Anghofiaf fyth y profiad hwn eto ym mysgr yr ugeiniau o brofiadau codi calon eraill a brofais wrth fod yn dyst i waith BanglaCymru.

Ers tair blynedd ar ddeg bellach mae BanglaCymru wedi newid cymaint o fywydau mewn sawl ffordd yn y wlad heriol hon, a parthed ein prif genhadaeth, perfformiwyd 48 o lawdriniaethau eleni sy'n dod â'r cyfanswm i 1,408 ers sefydlu'r elusen.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth dros yr holl flynyddoedd.

*Wil (Morus Jones)*

## **“Cwmnï” Ar-lein**

Ers y rhifyn blaenorol daethom o hyd i gyfeiriadau post nifer o'n darllenwyr sydd ddim wedi bod yn derbyn y papur ers inni ei yrru atoch ar-lein. Rydym bellach wedi ysgrifennu at ryw hanner cant o bobol yn eu gwahodd i yrru eu cyfeiriadau ebost atom os ydyn nhw am dderbyn y papur yn electronig.

Mae atebion yn dechrau dod i mewn ond hoffwn annog y sawl sydd wedi bod yn derbyn y papur yn rheolaidd yn ystod y cyfnod cloi i ofyn i'r sawl nad ydynt yn ei dderbyn ar-lein i yrru eu cyfeiriadau e-bost at y Golygydd.

Mae nifer o bobol wedi dweud ei bod yn well ganddynt dderbyn y papur fel hyn gan ei fod yn fwy lliwgar. Hefyd mae hyn wedi golygu llai o waith i'r sawl sydd yn cynhyrchu'r papur ac yn llai costus. Byddai'n beth da hefyd o ran yr amgylchedd petawn yn gyrru mwy allan ar-lein. Cysylltwch â'r Golygydd:

[benamary2000@yahoo.co.uk](mailto:benamary2000@yahoo.co.uk) 02920862428 a galwad neu neges destun ar 07891916046

'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'

### **Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar [ruthcjones25@aol.com](mailto:ruthcjones25@aol.com) (Aelod o Gymdeithas Ysgrifenydd Ewyllysiau)

# Colofn Dafydd Islwyn

Mae llond Capel y Nant, Pengam, fel pob capel arall yng Nghymru, o englynion, o Benygarnedd, Ynys Môn, i Bengam ac o gapel Tabernacl, Aberteifi i gapel Bethesda, Yr Wyddgrug, a gwelaf ynddynt flodeugerdd o Englynion Capel.

Wythnosau yn ôl wrth edrych yn Awen Meirion i weld os oedd un o englynwyr y sir wedi gweithio englyn i Syr O.M. Edwards, roeddwn newydd dderbyn copi o'i gofiant diweddaraf, darllenas englyn, Y Cysegr. Mae englyn J. Geufroynydd Jones, (1863-1960) ffermwr a siopwr yn un addas i agor y casgliad o englynion:

Tŷ gweddi, Tŷ datguddiad, - Tŷ i Dduw,  
Tŷ addewid cariad;  
Tŷ mawl yw, Tŷ ymweliad  
Tŷ a'i ddeddf er sancteiddhad.

Fe enillodd o leiaf dau o weinidogion gyda'r Bedyddwyr gystadleuaeth yr englyn yn y Genedlaethol. Y Parchedig E. Llwyd Williams, (1906-1961), Rhydaman yn Aberteifi 1942 a'r Parchedig Roger Jones (1903-1982), Talybont, Ceredigion ar y pryd yn Llanelli 1962. Aeth englyn Llwyd i Hwyl yn ei gyfrol Tir Hela â fy sylw:

Beth yw asbri gobaith ysbryd? – i gnawd  
Digon yw hwyl ieched;  
Mynnu byw yma'n y byd  
A beio, beio bywyd.

Sôn am Llwyd, bardd Cadair y Genedlaethol, Rhyl 1953, ai ef ydyn unig brifardd y gwnaethpwyd jig-so, pum cant chwe deg darn o'i seremoni Cadeirio? Codais englyn Roger Jones "Ein Sul Ni" o'i gyfrol gyntaf Awelon Llŷn 1970:

Diwrnod byr i'r dyrnaid bach – hen a swrth  
Ydyw ein Sul bellach;  
Nid oes i'n hoes gyfiawn iach  
Ddim awydd am Dduw mwyach.

Yr englyn uchod yn dwyn i gof englyn "Drws" Dai Pendre (1942-2019):

Reit ar ein stepen heno – y mae un  
Sydd yn mynnu curo  
Ar wareiddiad, er iddo  
Gael o hyd ein drws ar glo.

Gair arall am y dyrnaid bach ydy'r gweddill. Fe'i portreadwyd gan dalynwyr Penrhosgarnedd:

Mae'r oerion olion olaf' – yno o hyd

Yn hafan ambell oedfa  
Yn aros fel hen eira  
Am gwmpeini wedi'r ha'.

Mae'r gweddill yn dal i weddïo, meddai Glan Twymyn (1892-1957) brodor o Lanbrynmair, Sir Drefaldwyn:

Clyw eiddil yn ymbilio – am i Dduw  
Roi maddeuant iddo:  
Ochenaid enaid yno  
Yw'r weddi fawr iddo fo.

Sôn am weddi, mae'n rhaid crybwyll pader - sef Gweddi'r Arglwydd. Disgrifiwyd hi mewn englyn gan Feirdd Penfro mewn Ymryson y Beirdd flynyddoedd yn ôl:

Hen glasur ein heglwysi – yn fiwsig  
Defosiwn mewn gweddi;  
Mae hwn yn batrwm i ni  
I'w ddilyn a'i addoli.

Yn y Beibl y ceir Gweddi'r Arglwydd. Ond ddywedodd R.Williams Parry amdano:


Cymer hwn ac am arweiniad a nerth  
Glyn wrtho yn wastad;  
Coeliaf bri y clwy a'r brad  
Gwarth y cur, gwerth y cariad.

Mae Beibl 1588 a Beibl Cymraeg Newydd 1988 yn yr englyn hwn. Wrth ochr y Beibl ar y pulpud mae'r Llyfr Emynau. Y Parchedig O.M.Lloyd (1910 - 80), Dolgellau ar y pryd oedd awdur Englyn buddugol 1966. Y testun oedd Emyn:

Mae'n dod â diod awen – at enau  
Saint Ion yn ei angen  
Y fawlgan hoff fel gwin hen  
O fodd y wir winwydden.

Wrth sôn am emyn, yr enw cyntaf ddaw i'r cof ydy Ann Griffiths. Englyn William Morgan (1880-1952) Lerpwl ond brodor o Garno 'rhen Sir Drefaldwyn yn un adnabyddus:

O'i dawn a'i thanbaid ynni – fe rannodd  
Fêr ei henaid i ni;  
Erys dros fyth heb oeri  
Farworyn ei hemyn hi.





Un o'r pethau diddorol sydd wedi digwydd yn ystod cyfnod COVID yw bod mwy o bobl eisiau gwneud pethau allan yn yr awyr iach. Mae gwyddonwyr yn dweud bod hyn yn llawer mwy diogel. Felly mae rhai tafarnau, caffis a bwytaï wedi gosod byrddau y tu allan ar gyfer eu cwsmeriaid. Ond aeth rhai trefi a dinasoedd yn bellach na hyn. Maen nhw wedi cau ambell stryd i draffig a gosod byrddau ar gyfer bwyta ac yfed ar ganol y ffordd!

Dydy pawb ddim yn hapus gyda hyn. Yng Nghei Newydd yng Ngheredigion, roedd siopwyr yn cwyno fod pobl ddim yn gallu cyrraedd y siop am fod y ffordd wedi cau. Ond mae pobl eraill, twristiaid a phobl leol wrth eu bodd yn cael bwyta yn yr awyr iach.

Yng Nghaerdydd, mae Stryd y Castell, yn union o flaen y castell, ar gau i draffig ac mae byrddau o dan ymbareliau lliwgar ar y stryd. Ydych chi wedi bod yno? Mae'n brofiad diddorol!

Dydy hi ddim yn bosibl bwcio bwrdd, felly rhaid dewis amser eitha tawel. Ar ôl eistedd wrth fwrdd, rydych chi'n archebu bwyd trwy ddefnyddio eich ffôn neu ipad. Na, dych chi ddim yn siarad ar y ffôn ond yn mynd i wefan arbennig ac mae hynny yn rhoi rhestr o fwytaï lleol i chi. Cliciwch ar fwyty ac fe gewch chi'r fwydlen. Dewiswch eich bwyd a diod a thalu amdano.

A beth sy'n digwydd wedyn? Wel, mae'n rhaid aros ryw 20 munud, efallai ychydig mwy ar amserau prysur. Yna, byddwch chi'n gweld bachgen neu ferch ifanc yn cyrraedd ar feic ac yn dod at eich bwrdd. Byddan nhw wedi cario eich bwyd ar y beic o gegin y bwyty a bydd y bwyd yn dal yn boeth!

Roeddwn i wrth fy modd achos bod y system mor drefnus, ac fe ges i pizza blasus iawn (a gwin da!). Hoffech chi roi cynnig ar ardal fwyta Stryd y Castell? Y cyfan sydd ei angen yw TYWYDD BRAF!! Mwynhewch!



## ATEBION

*cyfnod : period*                      *yn yr awyr iach : in the fresh air*  
*yn bellach na hyn : further than this*      *cau : close*  
*cwyno : complain*                      *wrth eu bodd : in their element*  
*rhestr : a list*                              *bwydlen : menu*  
*a thalu amdano: and pay for it*                      *yn dal yn boeth : still hot*  
*rhoi cynnig ar..... : give ....a try*

*gwyddonwyr : scientists*                      *diogel : safe*  
*ar ganol y ffordd : in the middle of the road*  
*yn union : exactly*                      *gwefan : website*  
*dewiswch : choose*  
*mor drefnus : so organised*

Mae'r cyfnod clo wedi bod yn dipyn o her i ni fel swyddogion cymunedol Menter Caerffili. Bu rhaid dod o hyd i ffyrdd amrywiol a newydd i gynnig gwasanaeth, a cheisio dal i gysylltu â'n cymuned. Roedd yr holl broses yn gwbl wahanol i ni, a heb fawr o amser paratoi bu'n rhaid ceisio gwneud i unrhyw ddigwyddiad posib newid i fod ar-lein.

Fe wnaethon ni yn fuan iawn ddechrau cynnal ein boreau coffi dros Zoom, a hefyd trefnu sesiwn trefnu blodau, clwb darllen, Sgwad Sgwennu, cwrs ysgrifennu creadigol, sesiwn ukulele, clwb drama plant a mwy. Unrhyw beth oeddwn i'n credu allai weithio dros y platform, fe wnes i drefnu ei fod ar Zoom. Mae wedi bod yn ddull gwahanol iawn o ymgysylltu â chi i gyd, ond hefyd mae wedi rhoi'r cyfle i mi ddod i nabod nifer ohonoch lawer gwell, gan fy mod wedi cael yr amser i siarad un wrth un, neu mewn grwpiau llai. Dw i hefyd wedi helpu mudiadau a grwpiau i gysylltu â'i gilydd dros y we, wrth gynnal cyfarfod Merched y Wawr a Chwmni Cwm Ni. Gwnaeth Morgan barhau i gynnal nifer fawr o sesiynau digidol i blant a phobl ifanc dros ei sianeli gemau fideo, oedd wedi eu sefydlu eisoes. Mae Morgan wedi bod yn gweithio'n brysur iawn yn y cyfnod clo yn cyfieithu gemau fideo i'r Gymraeg, cam mawr iawn at gael yr iaith ym myd pob dydd plant a phobl ifanc.

Ar ddechrau'r cyfnod clo, roeddwn i ynghanol trefnu Gŵyl Ffiliffest, a bu'n rhaid cysylltu â phawb ynghlwm â hwnnw yn gyntaf i ganslo. Roeddwn i 'n dal eisiau gwneud rhywbeth o'r diwrnod, felly penderfynom fynd â Ffiliffest yn ddigidol a chael Ffiliffest ar-lein. Fe es i a Morgan ati i drefnu amserlen o weithgareddau a threulio diwrnod Ffiliffest o flaen ein cyfrifiaduron yn ein tai yn sicrhau fod pob dim yn digwydd ar amser. Fel arfer dwi'n cerdded tua 30,000 cam yn ystod Ffiliffest yn y castell, eleni mi gerddais i 3000!

Erbyn hyn rydym yn dechrau cwrdd wyneb yn wyneb eto, tu allan, pan yn bosib. Rydym wedi cynnal sesiwn rhiant a babi ym Mharc Morgan Jones, mae'r clwb cerdded wedi ail ddechrau cwrdd, ac mae'r ymgyrch 'mentRO' wedi bod yn llwyddiannus. Mae mentRO yn rhoi'r cyfle i chi ddewis i ni ddod i gwrdd â chi yn unigol neu mewn grŵp bach, mewn man sydd yn gyfforddus i chi, i gael paned neu i fynd am dro.

Y prif beth hoffwn i chi wybod yw ein bod ni fel Menter yma i unrhyw un sydd eisiau cymorth neu gwmni, felly cofiwch gysylltu. Mae'n gyfnod ansicr iawn, ond rydym ni'n gwneud ein gorau i ddal i gynnal digwyddiadau a rhoi'r cyfle i chi gymdeithasu drwy'r Gymraeg. Cysylltwch os oes gennych chi syniad am ddigwyddiad sydd ar-lein, neu yn dilyn canllawiau'r llywodraeth. Cadwch olwg ar ein gwefan am ragor o bethau yn y dyfodol neu tanysgriwch i dderbyn ein he-byst.

*Bethan Ollerton Jones*

## PWYLLGOR a SWYDDOGION

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas [e.thomas119@btinternet.com](mailto:e.thomas119@btinternet.com)

**Golygydd:** Ben Jones [benamary2000@yahoo.co.uk](mailto:benamary2000@yahoo.co.uk) 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough [faircloughmarian@gmail.com](mailto:faircloughmarian@gmail.com) 02920885151

**Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

**Ieuenctid:** Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, **Hysbysebu:** Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith

**Gweplyfr/ Facebook:**  Papur Bro Cwmni

**Gwefan:** Meter IaithSir Caerffili.cymru/ 

**e-bost:** [Golygydd@papurecwmni.cymru](mailto:Golygydd@papurecwmni.cymru) [benamary2000@yahoo.co.uk](mailto:benamary2000@yahoo.co.uk)

**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.**



*Ariennir yn  
rhannol gan  
Lywodraeth  
Cymru*